**EITEM AR YR AGENDA: 18**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17 Mawrth 2014**

## PROSES DATRYS YN LLEOL

**Adroddiad gan Gareth Owens, Dirprwy Glerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Ystyried Proses Datrys yn Lleol ar gyfer cwynion am Aelodau. Mae'r Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Safonau yn argymell fod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r broses.

## Cefndir

2 Mae Canllawiau'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn gyntaf yn Ebrill 2010 yn cynnwys y darn a ganlyn:

"Proses Datrys yn Lleol

Yn ystod oes y canllawiau hyn rwyf yn disgwyl i awdurdodau lleol ledled Cymru weithredu gweithdrefnau datrys yn lleol i ddelio â chwynion lefel isel sy'n cael eu gwneud gan un aelod yn erbyn aelod arall. Fel rheol bydd y cwynion hyn yn ymwneud â honiadau o fethu â dangos parch ac ystyriaeth at bobl eraill fel sy'n ofynnol gan baragraff 4(b) y Cod neu'r ddyletswydd i beidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus na gwamal yn erbyn aelodau eraill o dan baragraff 6(1)(d) o'r Cod. Er bod rhyddid i aelod gwyno'n uniongyrchol wrthyf i am gyd-aelod, os bydd y mater o dan sylw yn ymwneud â pharagraffau 4b a 6(1)(d) rwyf yn debyg o gyfeirio'r mater yn ôl at Swyddog Monitro'r Cyngor i'w ystyried o dan y broses hon.

Yn fy marn i mae'n fwy priodol datrys cwynion o'r fath yn anffurfiol ac yn lleol er mwyn cyflymu'r broses ac i sicrhau bod fy adnoddau'n cael eu cyfeirio at ymchwilio i gwynion difrifol. Nod datrys yn lleol yw datrys materion yn gynnar er mwyn atal y sefyllfa rhag gwaethygu'n ddiangen. Mae hynny'n gallu difrodi'r

berthynas a geir rhwng pobl yn yr awdurdod ac enw da'r awdurdod. Gall y broses arwain at ofyn i'r aelod dan sylw ymddiheuro. Fodd bynnag, pan fydd aelod wedi torri protocol lleol ei awdurdod droeon, byddwn yn disgwyl i'r Swyddog Monitro gyfeirio'r mater yn ôl ataf i."

## Gwybodaeth

3 Mae rhai cynghorau yng Nghymru eisoes wedi mabwysiadu Proses Datrys yn Lleol, a'r disgwyl yw y bydd pob cyngor yn mabwysiadu'r broses yn y dyfodol agos.

4 Wrth fabwysiadu proses datrys yn lleol, mae'n bwysig i'r broses fod yn glir, syml a chymharol anffurfiol yn ei chamau cynnar. Ni ddylid ystyried bod y broses yn disodli ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Bydd hynny'n parhau'n briodol ar gyfer achosion pan fo'r Cod Ymddygiad yn cael ei dorri droeon neu mewn modd difrifol. Dylai'r weithdrefn gael ei defnyddio i fynd i'r afael ag ymddygiad sydd naill ai heb fod yn wir yn torri'r Cod neu pryd y byddai'r Ombwdsmon yn anhebygol o ymchwilio.

5 Nid yw mabwysiadu proses datrys yn lleol yn cael gwared ar ddewis yr Ombwdsmon i ymchwilio i unrhyw gŵyn a gyfeirir ato, er y bydd ei staff yn sicr o ystyried bodolaeth gweithdrefn o'r fath wrth benderfynu sut i ymdrin â chŵyn.

6 Ers i'r Ombwdsmon wneud ei ddatganiad ynglŷn â gweithdrefnau datrys yn lleol, mae Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cytuno y dylid mabwysiadau gweithdrefnau datrys yn lleol. Maent wedi awgrymu y dylai gweithdrefnau o'r fath fod yn gymwys i gwynion gan swyddogion yn ogystal ag aelodau.

7 Er mwyn hwyluso gweithrediad y prosesau datrys yn lleol, dylid nodi bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cael gwared ar yr ymrwymiad ar yr aelodau i adrodd ynghylch achosion o amheuaeth o dorri'r cod.

## Argymhelliad

8 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r broses datrys yn lleol sydd wedi ei hatodi yn atodiad A.

**Atodiad A**

## Safonau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae'r ddogfen hon yn esbonio safon yr ymddygiad a ddisgwylir gan Aelodau ac aelodau cyfetholedig Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC) wrth ymdrin â'i gilydd a'r swyddogion. Dylid ei darllen ar y cyd â Chod Ymddygiad yr Aelodau a'r Protocol ar Gysylltiadau rhwng Aelodau a Swyddogion. Ychwanegiad at y dogfennau hyn ydyw, nid yw'n tynnu oddi wrthynt.

Ymhob achos, caiff ymddygiad o dan Safonau ATAGC ei farnu'n wrthrychol. Hynny yw, caiff ei farnu ar sail yr hyn y byddai rhywun rhesymol sy'n gwybod yr holl ffeithiau yn ei gasglu o weld yr ymddygiad.

Disgwylir i aelodau ATAGC wneud y canlynol:-

Ymddygiad Cyhoeddus:

- Dangos parch at ei gilydd a'r swyddogion
- Peidio â gwneud sylwadau personol sarhaus am ei gilydd na'r swyddogion
- Peidio â chyhoeddi dim sy'n sarhaus am ei gilydd na'r swyddogion
- Peidio â gwneud honiadau maleisus am ei gilydd na'r swyddogion
- Peidio â chyhoeddi neu ledaenu unrhyw wybodaeth ffug am ei gilydd na'r swyddogion
- Dangos parch at amrywiaeth a chydraddoldeb.

Ymddygiad mewn pwyllgorau:

- Ymddwyn ag urddas mewn cyfarfodydd
- Dangos parch at benderfyniadau'r Cadeirydd ac ufuddhau iddynt
- Peidio â defnyddio iaith anweddus na gwneud sylwadau hiliol neu sylwadau sy'n rhagfarnllyd am unrhyw garfan o gymdeithas.

Cyfrinachedd:

- Cadw cyfrinachedd papurau sydd wedi eu heithrio ac unrhyw ddogfennau eraill nad ydynt yn rhai cyhoeddus
- Peidio â rhyddhau gwybodaeth gyfrinachol i'r wasg na'r cyhoedd
- Dychwelyd neu ddinistrio unrhyw bapurau cyfrinachol mewn modd diogel
- Peidio â defnyddio gwybodaeth gyfrinachol at ddibenion gwahanol i'r rhai a fwriedir.

**Atodiad A**

## PROSES DATRYS YN LLEOL AR GYFER CWYNION YNGLŶN AG YMDDYGIAD

### CYFLWYNIAD

1. Mae Safon ATAGC a'r Protocol Cysylltiadau Aelodau-Swyddogion yn bwysig er mwyn hyrwyddo cydweithrediad da rhwng yr aelodau a'i gilydd a rhwng yr aelodau a'r swyddogion, a chaniatáu thrwy hynny i'r Awdurdod gyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol a phroffesiynol. Felly, mae'n bwysig fod modd ymdrin yn gyflym ac effeithiol ag unrhyw honiadau fod aelod wedi torri'r safon a/neu'r protocol. Diben y drefn hon yw cyflwyno dull syml a hawdd ei ddeall ar gyfer ymdrin â honiadau o'r fath.

2. Mae'n bwysig mynd i'r afael yn gyflym ag ymddygiad gwael ac ymdrin â'r materion tra bo'r manylion yn fyw yn y cof. Felly, ni fydd y drefn hon yn gymwys i ddigwyddiadau nag ymddygiad sy'n digwydd 12 mis cyn i gŵyn gael ei gwneud yn ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro.

### CAM 1 O'R DREFN

3. Dylai unrhyw aelod neu swyddog sy'n cyflwyno honiad dan y drefn hon anfon ei gŵyn at y Clerc/Swyddog Monitro. Dylai swyddogion sy'n dymuno gwneud cwyn siarad â'u Rheolwr Llinell yn gyntaf. Ar ôl derbyn y gŵyn, bydd y Swyddog Monitro yn gweithredu fel a ganlyn:-

4. Ni fydd y Clerc/Swyddog Monitro yn ymdrin â'r honiad yn y cam hwn, a hynny er mwyn cadw eu gallu i gynghori'r Pwyllgor Safonau yn nes ymlaen yn y broses. Bydd yr honiad yn y lle cyntaf yn cael ei gyfeirio naill ai at y Clerc/Swyddog Monitro (neu swyddog arall wedi ei enwebu gan y Swyddog Monitro) a bydd ef/hi yn cynghori a yw'r honiad yn dod o fewn y drefn hon ynteu a ddylid ei chyfeirio at yr Ombwdsmon fel achos o dorri Cod Ymddygiad yr Aelodau.

D.S. Mae gan yr achwynydd hawl statudol i gwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Os bydd yr achwynydd yn arfer yr hawl honno, ni ddilynir y drefn hon, a bydd unrhyw ymdrechion i ddatrys cwyn gan ddefnyddio'r broses hon yn dod i ben. Bydd y broses yn ailgychwyn dim ond os yw'r mater yn cael ei gyfeirio'n ôl i'w ddatrys yn lleol.

5. Dim ond ar gyfer honiadau a wneir gan swyddogion neu aelodau ATAGC fod aelod wedi torri Safon ATAGC neu'r Protocol Cysylltiadau Aelodau/Swyddogion y mae'r drefn hon yn addas. Nid yw'n addas ar gyfer y mathau canlynol o gwynion:

- cwynion a wneir gan aelodau o'r cyhoedd;
- cwynion sydd, yn nhyb y Clerc/Swyddog Monitro, yn honni achos difrifol o dorri'r cod ymddygiad; neu
- cwynion sy'n honni bod y cod ymddygiad wedi ei dorri droeon, neu bod yr achosion yn debyg i gwynion yr ymdriniwyd â hwy yng Ngham 3 o'r drefn hon.

6. Os yw'r gŵyn yn addas ar gyfer y drefn hon, bydd y Dirprwy Glerc/Swyddog Monitro yn rhoi cyngor ynglŷn â ffordd bosibl o ddatrys y gŵyn. Os nad yw'r gŵyn yn addas ar gyfer y drefn hon, bydd y Dirprwy Glerc/Swyddog Monitro yn cynghori beth y gellid ei wneud (os oes unrhyw beth o gwbl).

7. Os, yn dilyn y cam cyntaf, y bydd yr achwynydd yn dymuno bwrw ymlaen â'r honiad dan y drefn hon, gellir cyfeirio'r mater naill ai i gyfarfod cymodi dan Gam 2 neu i wrandawiad gan y Pwyllgor Safonau dan Gam 3.

**<u>CAM 2 O'R DREFN</u>**

8. Yng Ngham 2 cynhelir cyfarfod rhwng y canlynol:

   - yr achwynydd
   - yr aelod y gwneir y gŵyn yn ei erbyn
   - y Prif Swyddog Tân
   - y Dirprwy Glerc/Swyddog Monitro

   Mae hefyd, mewn achosion eithriadol, yn bosibl ymdrin â'r mater yn absenoldeb yr achwynydd.

9. Diben y cyfarfod hwn fydd ceisio datrys y mater drwy gymodi.

**<u>CAM 3 O'R DREFN</u>**

10. Y trydydd Cam yw gwrandawiad gerbron y Pwyllgor Safonau. Gofynnir i'r achwynydd gyflwyno sylwedd ei gŵyn yn ysgrifenedig, a gofynnir am ymateb ysgrifenedig gan yr aelod dan sylw. Bydd y papurau hyn, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir gan y naill ochr neu'r llall, yn cael eu dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor Safonau.

11. Bydd yr achwynydd a'r aelod yn cael yr hawl i ymddangos gerbron y Pwyllgor Safonau a chyflwyno tystiolaeth gan dystion. Bydd gan y ddau hawl i gael cynrychiolydd neu gydweithiwr yn bresennol. Ni fydd yr Awdurdod yn talu'r gost o gael cynrychiolydd.

12. Os bydd y naill ochr neu'r llall yn dymuno peidio â bod yn bresennol neu'n peidio ag ymddangos, gellir cynnal y gwrandawiad yn eu habsenoldeb.

13. Wedi i'r dystiolaeth gael ei chlywed, gofynnir i'r ddwy ochr a'u cynrychiolwyr adael y siambr, a bydd y Pwyllgor Safonau yn dod i gasgliad ynglŷn â'r honiad. Bydd y Swyddog Monitro wrth law i gynghori'r Pwyllgor.

14. Gall y Pwyllgor ddod i un o dri phenderfyniad, sef :-

    a) Nad oes sail i'r gŵyn.

    b) Bod sail i'r gŵyn, ond nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach.

    c) Bod sail i'r gŵyn, ac y dylid ceryddu'r aelod.

    Hefyd, gall y Pwyllgor wneud argymhellion i'r Awdurdod ynglŷn â newid unrhyw weithdrefnau neu gymryd unrhyw gamau pellach.

**<u>MATERION ATODOL</u>**

15. Bydd y papurau ar gyfer y gwrandawiad yn rhai eithriedig, ac argymhellir cynnal y gwrandawiad gyda'r wasg a'r cyhoedd wedi eu heithrio. Ni roddir cyhoeddusrwydd i enw'r aelod na'r achwynydd oni bai y penderfynir CEFNOGI'R achwynydd ac y dylid ceryddu'r aelod.

16. Nid oes raid dilyn Camau 2 a 3 yn eu trefn. Er ei bod yn bosibl i achwynydd sy'n parhau'n anfodlon ar ôl y cyfarfod cymodi ofyn i'r mater gael ei gyfeirio at wrandawiad gerbron y Pwyllgor Safonau, mae hefyd yn bosibl i fater fynd yn uniongyrchol at y Pwyllgor Safonau heb fynd at gyfarfod cymodi yn gyntaf.

17. Nod y drefn hon yw ceisio datrys cwynion ynglŷn ag aelodau yn gyflym ac effeithiol. Nid oes dim yn y drefn hon yn rhwystro achwynydd rhag cyflwyno cŵyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelod wedi torri Cod Ymddygiad yr Aelodau.